CASTELL-NEDD PORT TALBOT

Strategaeth Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach CNPT

Mai 2017

Neath Port Talbot County Borough
Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Gall cost ddynol ac emosiynol Trais yn Erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) fod yn anferth, nid yn unig i'r dioddefwyr, ond i deuluoedd, plant, cymunedau a'r gymdeithas gyfan. Dyna pam mae'r strategaeth hon yn gyfrifoldeb i bawb.

Mae strategaeth CNPT yn nodi'r hyn y bydd sefydliadau allweddol yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ei wneud I fynd i'r afael â phob math o drais yn y fwrdeistref sirol.

Mae wedi'i datblygu gan gynnwys y rhai sydd wedi goroesi'r math hwn o drais ac yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud i:

1. Bodloni'r galw cynyddol am gefnogaeth gan arbenigwyr
2. Lleihau niwed
3. Gwella bywydau'r rhai yr effeithir arnynt
4. Cynnig gwasanaethau cyson, effeithiol i ddioddefwyr
5. Dod â'r holl droseddwyr o flaen eu gwell

"Trais yn Erbyn Menywod" amrywiaeth o droseddau a brofir yn bennaf, ond nid bob tro, gan fenywod a merched.

Felly, mae'r strategaeth hefyd yn mynd i'r afael â'r canlynol:

- Trais tuag at ddynion a bechgyn neu grwpiau ac unigolion eraill sy'n profi'r mathau hyn o drais
- Gweithredoedd treisiol a gyflawnir gan fenywod

Crynodeb o'r strategaeth yw'r ddogfen hon. Gallwch weld y fersiwn lawn yn **www.npt.gov.uk**

Amcanion

Bydd y strategaeth yn helpu i sicrhau bod y cyngor a Bwrdd lechyd PABM yn bodloni gofynion Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Mae'r amcanion yn strategaeth CNPT yn adlewyrchu'r rhai yn strategaeth genedlaethol VAWDASV a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.

Bydd cael amcanion tebyg yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ein galluogi i ddangos sut y byddwn yn cefnogi Llywodraeth Cymru wrth gyflawni nodau ei pholisi ynghylch VAWDASV.

PA MOR GYFFREDIN YW CAM-DRIN DOMESTIG

YNG NGHASTELL-NEDD PORT TALBOT

2.1 MILIWN

NIFER Y BOBL AR DRAWS CYMRU A LLOEGR Y MAE

CAM-DRIN DOMESTIG

YN EFFEITHIO ARNYNT



POBLOGAETH CASTELL-NEDD PORT TALBOT

139,800

18,174

NIFER Y PRESWYLWYR

A ALLAI FOD YN DIODDEF RHYW FATH O

GAM-DRIN DOMESTIG

1186

YN ÔL DATA'R **HEDDLU LLEOL**

TROSEDDAU A GOFNODWYD YN **2015 2016**

877

NIFER Y BOBL A GAFODD **GEFNOGAETH GAN** WASANAETHAU ARBENIGOL

DIBYNYDDION 340 ♂ + 316

Datblygu ein Strategaeth

Amcan 1

Cynyddu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a herio agweddau tuag atynt, yn CNPT

Rhoddwyd amrywiaeth o ddulliau ar waith i alluogi dioddefwyr Cam-drin Domestig a phartneriaid lleol i fynegi eu barn i ni, ein hysbysu am fylchau mewn darpariaeth a meysydd i'w gwella.

Defnyddiwyd yr wybodaeth a gafwyd i lywio'n strategaeth leol, yn benodol y camau gweithredu mae'n rhaid i ni eu cymryd er mwyn gwella'n hymatebion i ddioddefwyr.

Ymgymerwyd ag ymchwil estynedig i ddeall y ddarpariaeth gyfredol yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan gynnwys yr arian sy'n cefnogi hyn.



Byddwn yn

- Datblygu cynllun cyfathrebu i gyhoeddi'r negeseuon allweddol gan ddefnyddio'r holl gyfryngau perthnasol
- Datblygu rhestr o'r gwasanaethau sydd ar gael i oedolion a phlant yn y fwrdeistref a chynnwys yr wybodaeth hon yn y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n datblygu
- Cynnwys goroeswyr lleol yng ngwaith y grŵp, er mwyn sicrhau bod eu barn a'u profiadau'n cael eu hystyried wrth gynllunio ymgyrchoedd y dyfodol
- Annog cyflogwyr lleol i roi strategaethau ar waith

Amcan 2

Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a bod cam-drin bob amser yn anghywir

Byddwn yn

- Sicrhau bod pob ysgol yn mabwysiadu rhaglen addas, gan lynu wrth arweiniad statudol LIC ar greu 'ymagwedd ysgol gyfan' at atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Sicrhau bod pob plentyn oed ysgol wedi cymryd rhan mewn rhaglen sy'n mynd i'r afael â materion sensitif a heriol o drais er mwyn datblygu cadernid plant a phobl ifanc i gynnal perthnasoedd iach
- Hyrwyddo ymgyrch y Swyddfa Gartref, 'Disrespect NoBody', er mwyn herio cam-drin mewn perthnasoedd arddegwyr
- Gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, Gwasanaeth Ieuenctid CNPT a'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid

Amcan 3

Cynyddu'r ffocws ar sicrhau bod troseddwyr yn atebol a rhoi cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr

Byddwn yn

- Nodi rhaglenni i droseddwyr y gellir eu rhoi ar waith yn ardal CNPT sy'n diwallu anghenion pobl sy'n peri risg isel, ganolig neu uchel
- Datblygu cyllid a chynlluniau priodol ar gyfer rhoi'r rhaglen achrededig a ffefrir i droseddwyr ar waith
- Sicrhau bod llwybr atgyfeirio addas gennym, er mwyn annog atgyfeiriadau, defnydd o'r rhaglen a phresenoldeb ynddi

Amcan 4

Blaenoriaethu atal ac ymyrryd yn gynnar

Byddwn yn

- Datblygu model gwasanaeth atal ac ymyrryd yn gynnar a ddefnyddir fel y sail ar gyfer ailfodelu ac ailgomisiynu gwasanaethau
- Gweithio gyda chomisiynwyr Cefnogi Pobl, Bwrdd Cynllunio'r Ardal, Diogelwch Cymunedol a Theuluoedd yn Gyntaf i ailffocysu cyllid yn unol â'r model gwasanaeth newydd
- Ceisio mwy o gyfleoedd ariannu i gefnogi ehangu ymyrryd yn gynnar ac ymyriadau atal
- Cynnal ymchwil i nodi angen sydd heb ei nodi

Amcan 5

Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i roi ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr

Byddwn yn

- Datblygu rhaglen hyfforddiant a fydd yn sicrhau y cydymffurfir â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, a'i rhoi ar waith
- Datblygu a chyhoeddi llwybrau atgyfeirio i alluogi gweithwyr proffesiynol i ymateb yn effeithiol i unrhyw achosion o ddatgelu neu nodi cam-drin domestig
- Cwblhau'r prosiect 'Gofyn a Gweithredu' sy'n cael ei dreialu gan Fwrdd Iechyd PABM a chynyddu nifer y bobl sy'n cael eu nodi a'u hatgyfeirio gan weithwyr iechyd

Amcan 6

Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr i wasanaethau sy'n cynnwys adnoddau priodol o safon, sy'n seiliedig ar anghenion a chryfder ac sy'n ymatebol i ryw ar draws Castell-nedd Port Talbot

Byddwn yn

- Gweithio gyda phawb sy'n comisiynu gwasanaethau i sicrhau bod gweithgarwch comisiynu'n cael ei lywio'n well, yn cael ei gydlynu'n fwy ac yn cynnig gwerth am arian
- Blaenoriaethu adolygiad o gefnogaeth llety er mwyn datblygu model gwasanaeth newydd sy'n galluogi ymyrryd yn gynt, gan hefyd arbed 10% o'r gyllideb bresennol
- Cyflwyno cais i'r Swyddfa Gartref am gyllid trawsnewid a all estyn datgelu diogel a mynediad i wasanaethau arbenigol o ganol trefi i'r rhai sy'n byw yng nghymunedau'r cymoedd
- Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod dyraniadau tai'n ystyried dioddefwyr cam-drin domestig yn briodol
- Datblygu cysylltiadau ymhellach â darparwyr arbenigol sy'n gallu diwallu anghenion y bobl y mae trais rhywiol a mathau eraill o drais, megis anffurfio organau cenhedlu menywod (FGM), yn effeithio arnynt

Amcan 7

Cynyddu'r ffocws ar wella cydnabyddiaeth o faterion VAWDASV, ac ymatebion iddynt, yn holl achosion y System Cyfiawnder Troseddol

Byddwn yn

- Cwblhau'r adolygiad o'r gwasanaethau cefnogi dioddefwyr risg uchel er mwyn gwella canlyniadau ymhellach, a nodi sut gallwn ymyryd yn effeithiol yn llawer cynharach
- Cynyddu'r defnydd o'r cyfleuster tystiolaeth o bell yn y Siop dan yr Unto
- Cryfhau ein partneriaeth ymhellach i sicrhau bod partneriaid SCT a Chyfiawnder Ieuenctid yn cymryd rhan wrth ddatblygu a chyflwyno'r strategaeth hon
- Monitro'r defnydd o orchmynion diogelu ar gyfer amrywiaeth o droseddau VAWDASV i hyrwyddo defnydd ehangach ohonynt a'u gorfodi'n well pan gânt eu torri
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Heddlu a'r llysoedd, gan nodi'r hyn y mae angen ei newid er mwyn cefnogi dioddefwyr yn well
- Cynyddu ymwybyddiaeth cyfreithwyr a chynrychiolwyr cyfreithiol lleol o bwysigrwydd cydnabod cam-drin domestig a darparu ymatebion priodol mewn llysoedd teulu

Arweinyddiaeth a Llywodraethu

Bydd y grŵp arweinyddiaeth yn defnyddio'r strategaeth hon i bennu blaenoriaethau blynyddol a fydd yn cael eu datblygu drwy gynlluniau gweithredu y cytunir arnynt yn glir. Bydd y cynlluniau gweithredu hyn yn cael eu hwyluso gan y canlynol: